**LC354**

# Cynulliad Cenedlaethol Cymru
# The National Assembly for Wales

**ADRODDIAD GAN Y PWYLLGOR DEDDFAU** **LEGISLATION COMMITTEE REPORT**

## Gorchymyn Iechyd Planhigion (Diwygio) (Cymru) (Rhif 2) 2001

### Y Cefndir

Mae'r Gorchymyn hwn yn diwygio Gorchymyn Iechyd Planhigion (Prydain Fawr) 1993 er mwyn gweithredu Cyfarwyddebau'r Comisiwn.

Mae newidiadau yn cael eu gwneud i'r diffiniadau daearyddol o barthau gwarchod amrywiol a restrir yn Atodlen 8 i Orchymyn 1993 gyda diwygiadau cyfatebol i Atodlenni 1B, 2B, 3B a 4B.

Mae'r Gorchymyn yn diweddaru'r cyfeiriadau hefyd at y brif ddeddfwriaeth Ewropeaidd sy'n adlewyrchu'r ffaith bod Cyfarwyddeb 77/93/EEC wedi'i chydgrynhoi a'i diddymu yn ddiweddar.

Mae darpariaeth debyg wedi'i gwneud ar gyfer Lloegr o dan Orchymyn Iechyd Planhigion (Lloegr) (Diwygio) 2001 (OS 2001 Rhif 2342) a ddaeth i rym ar 1 Awst 2001.

### Rheol Sefydlog 11.5

Nid oes dim pwyntiau wedi'u nodi fel materion y mae angen i'r Pwyllgor wahodd y Cynulliad Cenedlaethol i roi sylw arbennig iddynt.

383

Gan eu bod wedi cael cyfle i edrych ar ddrafft cynnar o'r Gorchymyn hwn, mae cynghorwyr cyfreithiol y Pwyllgor wedi llwyddo i nodi nifer o bwyntiau teipograffyddol a phwyntiau tebyg, sydd bellach wedi'u cymryd i ystyriaeth.

**Mick Bates AC**
**Cadeirydd y Pwyllgor Deddfau**

6 Tachwedd 2001